PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Caedeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy, Boyle, Goddard, Hudson, Kelloway a/ac Simmons |

## 40 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lloyd.

## 41 Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 42 Cofnodion

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 43 Rheoli Masnachu ar y Stryd - Strydoedd â Chaniatâd

Awdurdododd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2017, gyhoeddi hysbysiad o fwriad i newid dynodiadau stryd nifer o strydoedd o 'waharddedig' i strydoedd 'caniatâd' at ddibenion masnachu stryd.  Rhoddwyd gwybod i aelodau, yn unol â'r weithdrefn statudol, y cyhoeddwyd Hysbysiad Cyhoeddus yn South Wales Echo ar 10 Chwefror 2017. Ni dderbyniwyd dim sylwadau.

PENDERFYNWYD:

(1) Gydag effaith o 3 Mai 2017 diddymir yr holl benderfyniadau blaenorol yn dynodi'r holl rannau o Ffordd Churchill, Rhodfa Lloyd George (ac eithrio'r rhan rhwng Hemming Way Road a Roald Dahl Plas sydd eisoes â statws caniatâd), Rhodfa'r Orsaf (Canol y Ddinas), Plas Windsor (Canol y Ddinas), Stryd Herbert, Tyndall Street, Stryd Bute, Ffordd Y Brenin, yn strydoedd gwaharddedig yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

(2) Gydag effaith o 3 Mai 2017 Ffordd Churchill, Rhodfa Lloyd George (ac eithrio'r rhan rhwng Hemming Way Road a Roald Dahl Plas sydd eisoes â statws caniatâd), Rhodfa'r Orsaf (Canol y Ddinas), Plas Windsor (Canol y Ddinas), Stryd Herbert, Tyndall Street, Stryd Bute, Ffordd Y Brenin, Sgwâr Callaghan, Bute Terrace a Cilgant Bute i gael eu dynodi yn Strydoedd Caniatâd yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.40 am